

Claire Homard
Chief Officer (Education and Youth)
Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid)



I rieni pob disgybl yn y Dosbarth Meithrin

Date/Dyddiad Medi 2023
Ask for/Gofynner Derbyniadau i Ysgolion Gynradd
Email / Epost admissions@flintshire.gov.uk

Annwyl Riant

Derbyniad i Dosbarth Derbyn – Medi 2024

Bydd eich plentyn yn cychwyn y dosbarth derbyn ym mis Medi 2024. Yn awr mae gennych y cyfle i fynegi ffafriaeth ar gyfer eich ysgol o ddewis.

O 25 Medi 2023, ymgeisiwch ar-lein www.flintshire.gov.uk/schooladmissions a gwnewch yn siŵr eich bod yn derbyn e-bost i gadarnhau bod eich cais wedi'i gyflwyno. Os na fyddwch yn derbyn e-bost cadarnhau, dylech ail-anfon eich cais.

I'ch helpu â'ch penderfyniad bydd pob ysgol yn cynhyrchu prospectws sy'n rhoi manylion llawn am yr ysgol.

'Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu 'Canllaw i Wasanaethau Addysg 2024' yn nodi'r weithdrefn dderbyn. 'Mae'r Canllaw i Wasanaethau Addysg 2024' a rhestr o'r holl ysgolion ar gael, ar gael ar ein gwefan - www.flintshire.gov.uk/schooladmissions

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y 'Canllaw i Wasanaethau Addysg 2024' cyn llenwi'ch ffurflen dewis fel eich bod yn ymwybodol o'r meini prawf ar gyfer mwy o geisiadau na nifer o lleoedd sydd ar gael a pholisi cludiant Sir y Fflint.

Gweler yr amserlen ar gyfer derbyniadau i ysgolion gynradd isod:-

Ffurflenni derbyniadau ar gael i rhieni	Cyfnod ystyriaeth i rieni	Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni	Cyfnod dyrannu lleoedd	Hysbysir rhieni erbyn:
25/9/23	25/09/23-17/11/23	17/11/23	17/11/23-23/02/24	16/04/24

Rhaid i bob cais ddod i law erbyn y dyddiad cau.

Bydd ceisiadau hwyr yn cael sylw ar ôl y rhai a dderbynnir mewn pryd, felly mae'n bwysig eich bod yn anfon eich ceisiadau erbyn y dyddiad cau. Er bod modd cyflwyno cais ar-lein ar ôl y dyddiad cau, os ydych chi'n gwneud cais ar ôl diwedd y cyfnod dyrannu (23 Chwefror 2024) ni fydd eich cais yn cael ei brosesu tan ar ôl y dyddiad cynnig cenedlaethol (16 Ebrill 2024).

Yn gywir,
Natalie Summers – Arweinydd Tîm – Derbyniadau Ysgol

County Hall, Mold. CH7 6ND
www.flintshire.gov.uk
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6ND
www.siryfflint.gov.uk



The Council welcomes correspondence in Welsh or English
Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg